***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 7. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## **RHAN 2**

## AELODAU ANWEITHREDOL

*Trefniadau talu cydnabyddiaeth*

7 (1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth mewn perthynas â'r person sy'n gadeirydd SAC (yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraff 9).

(2) Ond cyn gwneud y trefniadau hynny rhaid ymgynghori â'r Prif Weinidog.

(3) Bydd symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (1) yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'u talu ohoni.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth mewn perthynas ag unrhyw aelod anweithredol arall.

(5) Bydd symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (4) yn cael eu talu gan SAC.

(6) Caniateir i drefniadau talu cydnabyddiaeth o dan y paragraff hwn—

(a) darparu ar gyfer cyflog, lwfansau, arian rhodd, a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid, ond nid ar gyfer pensiwn, a

(b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.

(7) Ond ni chaiff unrhyw elfen fod yn seiliedig ar berfformiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 1 para. 7 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(u)(vii)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 7.